Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Tan Yr Allt Lodge Ltd**

**Tan Yr Allt Lodge**
**14 Alltwen Hill**
**Pontardawe**
**Abertawe**
**SA8 3AB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

27/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Tan Yr Allt Lodge Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Tan Yr Allt Lodge Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 26 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Chwefror 2022 |
| A yw’r gwasanaeth hwn yn darparu’r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae Tan Yr Allt Lodge yn lân, yn ddiogel, yn hygyrch ac mewn cyflwr da. Mae'r bobl yn y cartref a'u perthnasau i gyd yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Caiff cofnodion gofal eu cynnal yn dda, a gwneir atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda ac ategir hyn gan drefniadau llywodraethu da. Mae pawb sy'n gysylltiedig â'r cartref yn adnabod yr Unigolyn Cyfrifol yn dda, ac yn sicrhau ei fod ar gael i'r bobl, eu perthnasau a'r staff yn rheolaidd. Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn frwdfrydig ynghylch eu gwaith. Maent yn trin y bobl ag urddas a pharch ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan yr uwch-aelodau o staff. Mae pob gweithiwr yn cwblhau hyfforddiant sy'n berthnasol i'w rôl ac yn dweud fod hynny'n ei helpu i gefnogi'r bobl yn briodol.

## Llesiant

Ar y cyfan, mae'r bobl mor annibynnol ag y dymunant ac mae ganddynt gymaint o reolaeth dros eu bywydau â phosibl. Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn gwrando ar farn y bobl am eu gofal a'u cymorth ac maent yn ymwybodol o bwysigrwydd llesiant pob person.

Mae'r bobl yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau am y ffordd i dreulio eu hamser. Mae gan y gweithwyr gofal gydberthnasau da a pherthnasau proffesiynol â'r bobl a'r perthnasau. Gall pob person bersonoli eu hamgylchedd yn ôl eu diddordebau a'u hobïau. Nid yw cyfarfodydd tŷ yn boblogaidd gyda'r bobl, felly mae'r gweithwyr allweddol a'r nyrsys penodol yn siarad â'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn rheolaidd er mwyn adolygu unrhyw newidiadau i'w hanghenion gofal a chymorth.

Mae pob person yn cael y cymorth cywir gan fod y cofnodion gofal yn disgrifio eu trefniadau cymorth yn glir. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys swm sylweddol o wybodaeth am ddewisiadau'r unigolyn, yn ogystal â chiplun o'i gefndir. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl maent yn rhoi cymorth iddynt yn arbennig o dda, ac mae'r gweithwyr allweddol yn gweithio gyda'r bobl a'u perthnasau i wneud yn siwr eu bod yn cael y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt. Cadarnhaodd y perthnasau eu bod yn cael eu gwahodd i gymryd rhan pan fydd y cofnodion gofal yn cael eu hadolygu. Dywedodd un perthynas wrthym, *“They make sure we know what’s going on all the time.”* Ar ben hynny, mae'r bobl yn cael copi o ganllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth pan fyddant yn cyrraedd: dogfen sy'n darparu manylion am y gwasanaeth yw hon, gan gynnwys gwybodaeth am y broses gwyno os bydd angen iddynt ei defnyddio. Dywedodd y perthnasau wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw beth y maent am ei drafod â'r rheolwr a'u bod yn teimlo y byddai'n gwrando arnynt pe baent yn gwneud hynny.

Caiff llais y bobl ei glywed a gwrandewir arno. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg: mae hyn yn golygu bwrw ati i ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg i bobl heb fod angen iddynt ofyn am hynny – mae rhai o'r bobl yn y cartref a rhai aelodau o'r staff yn siarad Cymraeg. Bydd y rheolwr yn trafod creu'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn ddwyieithog.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael cymorth fel y'i disgrifir yn eu cynlluniau gofal gan dîm sefydledig o nyrsys a gweithwyr gofal. Dywedodd un perthynas, *"I can relax, knowing x is well cared for here. It's a great weight off my mind."* Mae'r adolygiadau gofal a'r asesiadau risg yn helpu i gynnal annibyniaeth y bobl tra'n eu cadw'n ddiogel o unrhyw risgiau cysylltiedig.

Mae'r uwch-aelodau o staff yn cynnal asesiadau cyn i'r bobl symud i mewn i'r cartref ac maent yn ystyried amrywiaeth o wybodaeth er mwyn sicrhau y gallant ddiwallu anghenion y bobl: cymerir gwybodaeth o ffynonellau amrywiol, gan gynnwys asesiadau nyrsys a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill. O hyn, bydd uwch-aelodau o'r staff yn datblygu cofnodion gofal i ddisgrifio trefniadau a gofynion cymorth y bobl. Caiff cofnodion gofal manwl eu cadw ar system electronig newydd. Mae'r gweithwyr gofal yn cael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen arnynt ar ddyfeisiau a ddelir â llaw. Gwelsom ei fod yn hawdd iawn dod o hyd i unrhyw ganllawiau: mae hyn yn sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae'r darparwr wedi cyflogi therapydd lleferydd ac iaith, therapydd galwedigaethol, a ffisiotherapydd ers cryn amser bellach: mae hyn yn golygu y gellir asesu problemau, a gellir rhoi triniaethau ac ymyriadau ar waith yn gyflym, yn unol ag anghenion unigol. Ar ben hynny, mae'r gweithwyr allweddol ac uwch-aelodau o staff yn adolygu cofnodion gofal bob mis, neu'n amlach os bydd anghenion cymorth yn newid er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol. Mae gan bob person giplun i gofnodi'r hyn sy'n bwysig iddynt. Caiff gwybodaeth bwysig ei chofnodi ar basbort ysbyty sy'n mynd gyda'r person os byddant yn mynd i ysbyty.

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r bobl yn ddiogel a chânt eu hamddiffyn rhag camdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal wedi bodloni proses recriwtio drylwyr y darparwr. Gall pob gweithiwr gofal gael gafael ar bolisïau a gweithdrefnau er mwyn deall ei gyfrifoldeb i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Maent yn cael diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â'u hyfforddiant diogelu. Gwnaethant ddweud wrthym fod yr uwch-aelodau o staff yn eu cefnogi'n dda a'u bod ar gael bob amser i roi cyngor os bydd angen.

Mae gan y cartref bolisïau a gweithdrefnau manwl i reoli'r risg o heintiau. Mae arferion hylendid da ar waith ym mhob rhan o'r cartref a gall y gweithwyr gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau lle bo angen. Caiff pob mesur ei ddefnyddio'n gyson er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu rhag heintiau.

## Yr Amgylchedd

Mae gan Tan Yr Allt Lodge dair uned ar wahân, ac mae'n darparu ar gyfer pobl ag anghenion penodol. Mae pob ardal yn gynnes ac yn lân, a dywed y bobl eu bod yn teimlo'n gyfforddus ac yn hapus. Mae'r ystafelloedd gwely yn fawr ac wedi'u personoli i adlewyrchu chwaeth a diddordebau'r person, gydag eitemau fel ornamentau, llenni a deunyddiau, lluniau a dodrefn. Mae'r cyfleusterau a'r cyfarpar yn hybu annibyniaeth pob person gymaint â phosibl: mae'r coridorau yn llydan er mwyn helpu pobl nad ydynt yn gallu symud yn dda a sicrhau bod digon o le ar gyfer y cyfarpar a ddefnyddir yn rheolaidd gan y bobl, megis teclynnau codi a chymhorthion sefyll. Yn allanol, mae patio a gardd hygyrch gyda decin.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel. Nid oes unrhyw rwystrau wrth yr allanfeydd tân. Caiff yr holl ddeunyddiau COSHH (Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd) eu storio'n gywir, yn unol â Rheoliadau COSHH 2002 ac mae cyfarwyddiadau clir wedi'u harddangos yn y cartref sy'n nodi beth y dylid ei wneud os bydd tân.

Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt er mwyn dod i mewn. Caiff cofnodion gofal a chofnodion cyfrinachol y bobl eu storio'n ddiogel ar-lein a dim ond y cyflogeion sydd ag awdurdod i'w gweld all gael gafael arnynt. Caiff cofnodion personél yr holl weithwyr eu cadw'n ddiogel ym mhrif swyddfa'r darparwr yn Abertawe, ond maent ar gael yn electronig ar gais.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Ar y cyfan, mae gan y tîm rheoli weledigaeth glir o'r cymorth y mae am ei ddarparu, ac agwedd gadarnhaol tuag at bob person yn y cartref. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfarfod yn rheolaidd â'r rheolwr, y nyrsys a'r gweithwyr gofal er mwyn goruchwylio'r gwaith o fonitro'r cymorth a roddir i'r bobl bob dydd. Mae'r tîm rheoli yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â theuluoedd y bobl a'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'u gofal. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn pe bai angen iddynt wneud hynny ac maent yn hyderus y byddai'r tîm rheoli yn gwrando arnynt pe baent yn gwneud cwyn. Cadarnhaodd un perthynas, *"We would talk to the manager if we felt we had to, but usually it's just small issues that gets sorted there and then."* Mae modd i'r bobl a'u perthnasau gwblhau arolygon sy'n gofyn am eu barn ar ansawdd y cymorth a roddir iddynt – mae'r ymatebion yn gadarnhaol tu hwnt am y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr yn trafod unrhyw faterion y maent am eu codi yn ystod cyfarfodydd goruchwylio cyfrinachol a gynhelir yn rheolaidd. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cofnodi ansawdd y gwasanaeth a gynigir i'r bobl mewn adroddiadau sicrhau ansawdd rheolaidd.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus ar gael i ddarparu'r cymorth cywir i'r bobl. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogi cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio: Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, dogfennau adnabod â llun a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae rhaglen sefydlu staff 24 wythnos sy'n gysylltiedig â deilliannau dysgu unigol a'r 'Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.' Mae'r darparwr wedi datblygu rôl Ymarferwyr Gofal Iechyd yn y sefydliad: mae hyn yn rhoi cam clir ymlaen yng ngyrfa'r gweithwyr gofal, er mwyn helpu'r nyrsys mewn rhannau o'u rôl. Gwnaethom siarad ag un Ymarferydd Gofal Iechyd, a dywedodd fod yr hyfforddiant wedi bod yn dda iawn ac yn ddefnyddiol. Ychwanegodd *"It's definitely worthwhile, we can share the workload now, helps us do things better."*

Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r darparwr yn cymryd camau priodol i ddiogelu'r bobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r tîm o staff yn sicrhau eu bod yn diogelu unrhyw wybodaeth breifat a phersonol. Mae polisi a gweithdrefn diogelu'r cartref yn unol â deddfwriaeth gyfredol a gweithdrefnau diogelu lleol. Mae uwch-aelodau o'r staff yn sicrhau bod yr holl gofnodion gofal yn nodi unrhyw risgiau i lesiant y bobl yn glir, ac mae'r cynlluniau rheoli risg manwl yn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel ac mor annibynnol â phosibl. Mae'r gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol o ran cadw'r bobl yn ddiogel. Maent

yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio pe bai angen. Byddent yn siarad â'r rheolwr neu'r Unigolyn Cyfrifol, ond byddent yn cysylltu ag asiantaethau allanol, fel y swyddfa ddiogelu leol, pe byddent o'r farn bod angen gwneud hynny.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Gwelodd arolwg a gynhaliwyd ar 24 a 25 Chwefror 2022 fod cofnodion am gamau gweithredu yn unol â risgiau a gofnodwyd mewn cynllun cymorth yn anghyson ac yn anghyflawn, yn dilyn archwiliad o ffeiliau cymorth y darparwr. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/09/2023